



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**CYNGOR YMGYNGHOROL
SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2018-2019

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL CAERFFILI**

2018 - 2019

CYNNWYS	TUDALEN
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	1
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	1
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	1
1.3 Aelodaeth CYSAG	1
1.4 Swyddogaethau CYSAG	1
1.5 Cyfarfodydd	2
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	2
 CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG	 3
 ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	 6
2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol	6
2.2 Safonau mewn AG	6
2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon	9
 ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD	 12
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	12
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	13
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	13
 ADRAN 4: MATERION ERAILL	 14
4.1 CCYSAGauC	14
4.2 Addysgu am yr Holocost	14
4.3 Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm Cenedlaethol	14
4.4 Diweddariadau Estyn	15
4.5 Adroddiad Terfynol gan y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr	15
4.6 Holiadur CCYSAGauC ynghylch tynnu disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol	16
4.7 Hyfforddiant ar gyfer Aelodau CYSAG	16
4.8 Aelodaeth CYSAG	17
4.9 Cynghorydd Proffesiynol CYSAG	18
 ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG 2018-2019	 19
ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU	20
ATODIAD 3: DADANSODDIAD O GANLYNIADAU ARHOLIADAU 2018	23
ATODIAD 4: DOSBARTHU'R ADRODDIAD	27

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR
YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL CAERFFILI

2018-2019

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Mae angen y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG: -

- Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill a fydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol
- Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon
- Yr Awdurdod Lleol

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai'r CYSAG gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd o gymdeithasau athrawon. At hynny, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol. Mae'r ddau le cyfetholedig yn wag ar hyn o bryd (gweler 1.3 ar gyfer camau i lenwi swyddi gwag).

1.3 Aelodaeth CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa ym mis Awst 2019 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Gwnaed pob ymdrech i geisio sicrhau cynrychiolaeth o blith sefydliadau crefyddol nad ydynt yn rhai Cristnogol ond mae CYSAG wedi ei chael yn anodd dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath. O ran Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Eglwysi ynghyd yng Nghymru (CYTŪN), Ymddiriedolaeth Onyx Link a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru er mwyn ceisio cynrychiolaeth. Mae cynrychiolydd newydd o Ddyneiddwyr Cymru wedi cael ei recriwtio i swydd newydd ar Bwyllgor A. Mae pedair swydd wag ar Bwyllgor B ac mae CYSAG yn aros am Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau i gymeradwyo dau unigolyn sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o CYSAG. Mae CYSAG wedi cysylltu â Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau sawl gwaith ynghylch y swydd wag ar Bwyllgor B, ond nid yw wedi cael ateb eto.

Mae CYSAG Caerffili wrthi'n cyfethol cynrychiolwyr o blith pobl ifanc i CYSAG er mwyn rhoi llais i ddysgwyr. Gellid gofyn am enwebiadau o'r Fforwm Ieuenctid. Bydd y Cadeirydd yn mynd i gyfarfod o'r Fforwm Ieuenctid yn Nhymor yr Hydref 2019 er mwyn siarad â'i aelodau am waith CYSAG.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar addoli a'r addysg grefyddol i'w rhoi yn unol â'r maes llafur cytŵn gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a hyfforddiant i athrawon

- Ystyried a ddylid argymhell bod yr awdurdod lleol yn adolygu ei faes llafur cytûn presennol drwy gynnal Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn.
- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoli crefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'lled Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Lleol a'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) ar ei weithgareddau bob blwyddyn.

1.5 Cyfarfodydd

Cyfarfu CYSAG deirgwaith yn ystod blwyddyn academiaidd 2018-2019.

14 Tachwedd 2018
6 Mawrth 2019
20 Mai 2019

Mae CYSAG wedi penderfynu y caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau amgen fel ysgolion neu fannau addoli lle y bo'n bosibl. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2018- 19 cynhaliodd CYSAG gyfarfod mewn ysgol yn y fwrdeistref sirol a dau gyfarfod yn swyddfeydd y cyngor.

1.6 Dosbarthu'r Adroddiad

Caiff copïau o'r adroddiad hwn eu dosbarthu'n electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 4. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC.

CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

ADDYSG GREFYDDOL

Mater

Monitro'r ddarpariaeth a'r safonau mewn Addysg Grefyddol

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn ystyried adroddiadau arolygu ysgolion ac yn eu dadansoddi. Os bydd unrhyw broblemau o ran Addysg Grefyddol, megis methu â bodloni gofynion statudol, yna bydd yr ALI yn cymryd camau dilynol. Yn ystod 2018-2019, nodwyd un achos o beidio â bodloni gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol yn yr adroddiadau ac roedd angen cymryd camau dilynol. Ysgrifennodd CYSAG i'r ysgol dan sylw i ofyn am gopi o'r cynllun datblygu a chynnig cymorth ymgynghorol.
2. Mae CYSAG yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn ac yn cael cyflwyniad ar AG yn yr ysgol fel y gellir nodi cryfderau a gwendidau a mynd i'r afael â materion yn uniongyrchol. Ymwelwyd ag un ysgol uwchradd yn 2018/19.
3. Mae CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac yn nodi tueddiadau mewn perfformiad wedi'u meincnodi yn erbyn data Cymru Gyfan. Hysbysir ysgolion am ganlyniadau'r dadansoddiad hwn a bydd CYSAG yn codi unrhyw faterion y dylai ysgolion fod yn mynd i'r afael â hwy o ganlyniad i'r dadansoddiad hwn.

Mater

Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytûn ar waith

Cam Gweithredu

1. Yn 2008 cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a rhoddwyd y maes llafur hwnnw ar waith ym mis Medi 2008.
2. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ailfabwysiadu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol gan gredu y câi'r maes llafur ei adolygu unwaith y byddai rhagor o wybodaeth wedi dod i law am yr asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.
3. Ym mis Mai 2019, sefydlwyd Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn ac ailfabwysiadwyd maes llafur cytûn 2008.
4. Mae CYSAG wedi cael gwybod bob tymor am y datblygiadau diweddaraf o ran yr adolygiad o'r Cwricwlwm a'r broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae CYSAG wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y papur gwyn a Chwricwlwm Drafft i Gymru 2022. Mae CYSAG yn aros i Gwricwlwm i Gymru 2022 gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 a manylion pellach gan Lywodraeth Cymru ar y Fframwaith Addysg Grefyddol cenedlaethol.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu am adnoddau addas

Cam Gweithredu

1. Hysbyswyd pob ysgol am thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2019, sef 'Rhwygo o'u cartref', a'r ffaith bod adnoddau am ddim ar yr Holocaust ar gael ar y wefan www.hmd.org.uk, gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleddi gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.
2. Dosbarthodd CYSAG gopiâu o RE Ideas i bob ysgol a ddarparwyd am ddim drwy garedigrwydd Mudiad Addysg Grefyddol Cymru.
3. Lluniwyd Bwletin Newyddion Addysg Grefyddol CYSAG yn ystod Tymor yr Haf i'w ddosbarthu i bob ysgol a pharti â diddordeb, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Gwricwlwm newydd i Gymru 2022, y Fframwaith Addysg Grefyddol, Adolygiad Thematig Estyn, diweddariadau CBAC, yr Wythnos Rhyng-ffydd a mannau addoli, yn ogystal ag erthyglau a gyflwynwyd gan athrawon ac aelodau CYSAG o nifer o Awdurdodau Lleol.
4. Rhoddwyd gwybod i ysgolion am Ysgoloriaethau Farmington sydd ar gael i athrawon Addysg Grefyddol.
5. Rhannwyd Bwletinau Newyddion Rhyng-ffydd ag ysgolion yn <https://www.interfaith.org.uk/news/ifn-e-bulletin>
6. Mae gwybodaeth am ymweliadau ac ymwelwyr â De Cymru ar gael i ysgolion ar gais.
7. Roedd gwybodaeth am y gwerthusiad o effeithiolrwydd *Amrywiaeth Crefydd a Chred: Canllawiau a phecyn adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru a Lloegr*, a gyhoeddwyd gan Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, ar gael i ysgolion.

HYFFORDDIANT AR GYFER ATHRAWON

Mater

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael DPP priodol.

Cam Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu hyfforddiant penodol ar Addysg Grefyddol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy arweinwyr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAGau. Roedd pwyslais yr hyfforddiant ar wella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, cafodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd a diweddariadau ar waith CYSAGau, CCYSAGauC a chyrrff perthnasol eraill hefyd. Roedd pwyslais hefyd ar gymedroli gwaith marcio, rhannu arferion da a chydweithredu i ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

ADDOLI AR Y CYD

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn bodloni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn rhoi profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro adrannau adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC), ac mae'r ALI yn cymryd camau dilynol os bydd unrhyw achos o fethu â bodloni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd sylwadau cadarnhaol yn nodi bod ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Gwnaeth Estyn argymhelliad ynghylch addoli ar y cyd mewn un adroddiad addoli. Mae CYSAG wedi ysgrifennu i'r ysgolion er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad ynghylch addoli ar y cyd. Mae'r holl ysgolion eraill a arolygwyd yn bodloni'r gofynion statudol mewn cysylltiad ag addoli ar y cyd. Cyflwynwyd crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiadau hyn i'r aelodau.
2. Mae CYSAG wedi hysbysu ysgolion am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e. Diwrnod Cofio'r Holocaust 2019.
3. Penderfynodd CYSAG gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y fwrdeistref sirol ac arsylwi ar weithred addoli ar y cyd lle y bo modd er mwyn monitro'r broses o fodloni gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd addoli ar y cyd. Ymwelwyd ag un ysgol uwchradd ond nid arsylwodd yr aelodau ar weithred addoli ar y cyd.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau bod CYSAG yn cael mwy o wybodaeth drwy roi diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae'n cael adborth bob tymor o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae Cynghorydd AG CYSAG yn aelod o PYCAG (Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol) ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.
3. Mae CYSAG wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r goblygiadau i addysg grefyddol.
4. Mae'r aelodau wedi cael cyflwyniadau eleni gan eu cynghorydd proffesiynol, Ms. P. Webber, a roddodd ddiweddariadau ar yr adolygiad o'r Cwricwlwm i Gymru a'i oblygiadau i Addysg Grefyddol, gan gynnwys datblygu'r Fframwaith Addysg Grefyddol cenedlaethol, yn ogystal â Ms. Kathy Riddick, a roddodd gyflwyniad i CYSAG ar 'Beth yw Dyneiddiaeth?' Yn ystod cyfarfod CYSAG yn nhymor yr Haf, cafodd yr aelodau gyflwyniad gan Bennaeth Adran Ysgol Trecelyn ar Addysg Grefyddol yn yr Ysgol.
5. Os oes modd, mae CYSAG yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yng Nghaerffili er mwyn i'r aelodau ymgyswngi ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Cynhaliwyd un o gyfarfodydd CYSAG yn Ysgol Trecelyn, lle rhoddodd y Pennaeth Addysg Grefyddol a dau ddisgybl wybod i'r aelodau am y ffordd y cyflwynir Addysg Grefyddol yn yr ysgol.
6. Ystyriodd CYSAG y problemau a oedd yn gysylltiedig â'r manylebau Safon Uwch a TGAU newydd ar gyfer Addysg Grefyddol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion fel y bo'n briodol.

ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Yn 2008 gwnaeth y Gynhadledd Sefydlog gymeradwyo a mabwysiadu maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod i'w roi ar waith o fis Medi 2008. Mae cysylltiad agos rhwng y maes llafur cytûn a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Cyflwynwyd deunydd cymorth, gan gynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau *Cynnydd wrth Ddysgu* electronig ar gyfer ysgolion uwchradd, i ysgolion.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2012/13 hysbyswyd CYSAG o'r cyhoeddiad gan y Gweinidog fod adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru ar fin cael ei gynnal. Yn ystod Tymor yr Haf 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ailfabwysiadu'r maes llafur presennol gan gredu y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y byddai canlyniadau'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, y trefniadau asesu a'r Cyfnod Sylfaen ar gael.

Yn ystod 2018-19, mae CYSAG wedi cael gwybod bob tymor am y datblygiadau diweddaraf o ran y Cwricwlwm newydd i Gymru. Yn Nhymor yr Hydref, aeth cynrychiolwyr CYSAG i ymgynghoriadau â Llywodraeth Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r Fframwaith Addysg Grefyddol.

Mae CYSAG yn aros am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ar y Fframwaith Addysg Grefyddol a fydd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru 2022.

Ar 20 Mai 2019, cynhaliwyd Cynhadledd Sefydlog i adolygu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol 2008. Yn y cyfarfod, cytunwyd i ailfabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn presennol nes i'r cwricwlwm newydd gael ei roi ar waith yn 2022.

Anfonwyd copi o'r Maes Llafur Cytûn i ysgolion. Hysbyswyd ysgolion y dylent barhau i ddilyn y maes llafur hwn nes iddynt glywed yn wahanol.

2.2 Safonau mewn AG

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro'r safonau a gyflawnir gan ysgolion yr Awdurdod mewn perthynas ag addysg grefyddol gan gynnwys y canlynol:

2.2a Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Yn ystod cyfarfodydd CYSAG drwy gydol y flwyddyn, craffodd yr awdurdod lleol a'i CYSAG ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Mawrth 2019. Arolygwyd 19 o ysgolion ym mwrdeistref Caerffili, a oedd yn cynnwys dwy ysgol fabanod, 13 o ysgolion cynradd, un ysgol iau a thair ysgol uwchradd. Os bydd unrhyw broblemau o ran Addysg Grefyddol, megis methu â bodloni gofynion statudol, yna bydd yr ALL yn cymryd camau dilynol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Nodwyd materion penodol i bwnc AG yn un o'r adroddiadau ac mae CYSAG wedi cymryd y cam dilynol o anfon llythyr i'r ysgol yn cynnig cyngor, arweiniad a chymorth. Nid oedd angen cymryd camau dilynol mewn unrhyw ysgol arall.

Roedd sylwadau cadarnhaol o ran ymweliadau ac ymwelwyr yn yr adroddiadau, a rhoddodd ymweliadau addysgol cyfoethog â mannau addoli brofiadau cyfoethogi i

ddysgwyr, gan hefyd gyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth disgyblion o grefydd a chred, a'u cyfrifoldebau cymdeithasol. Gwelwyd bod y cwricwlwm mewn un ysgol fabanod yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am wahanol ddiwylliannau a ffydd. Er enghraifft, yn ystod yr wythnos amlddiwylliannol, mae disgyblion yn creu ffeiliau ffeithiau am wahanol wledydd, yn creu arteffactau ac yn blasu bwyd o bedwar ban byd. Roedd gwerthfawrogiad o bwysigrwydd dathlu gwyliau crefyddol i gredinwyr crefyddol hefyd yn amlwg mewn adroddiadau gydag un ysgol yn meithrin dealltwriaeth o'r diwylliant Hindŵaidd drwy ddathliad ysgol gyfan yn ystod gŵyl Diwali. Gwelwyd bod amrywiaeth y prosiectau elusennol ym mwrdeistref Caerffili yn cyfrannu'n dda at feithrin empathi a dealltwriaeth dysgwyr o faterion cymdeithasol a moesol. Roedd darpariaeth dda ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ac addysg dros ddatblygu cynaliadwy.

2.2b Canlyniadau Arholiadau 2018

Dadansoddwyd ac ystyriwyd canlyniadau arholiadau TGAU a TAG UG/Safon Uwch a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yn yr Awdurdod yn ystod cyfarfod CYSAG yn Nhymor y Gwanwyn. Cynhaliwyd dadansoddiad bob tair blynedd er mwyn cymharu a nodi tueddiadau. Cafodd nifer yr ymgeiswyr fel canran o'r garfan ei dadansoddi hefyd a'i chymharu â ffigurau'r Consortia a ffigurau Cymru Gyfan (lle y bônt ar gael).

Nododd CYSAG fod cwmpwng amlwg yn y canlyniadau ar gyfer nifer o raddau TGAU a TAG Safon Uwch o gymharu â'r canlyniadau yn 2017 ar gyfer ysgolion Caerffili, yn seiliedig ar duedd dros dair blynedd (2015-2018). Ceir tabl manwl o ganlyniadau arholiadau yn Atodiad 4.

TGAU Cwrs Llawn Astudiaethau Crefyddol

Yn seiliedig ar Duedd dros Dair Blynedd 2015 – 2018

Mae canran yr ymgeiswyr ym mwrdeistref Caerffili wedi cynyddu 8.4 y cant, o 34.3% i 42.7%, sef cynnydd o 132 o ymgeiswyr.

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* ac A wedi gostwng 13.1 y cant, o 29.3% i 16.2%.

Mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r hyn a gafwyd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, sef 5.3 y cant i 22.9%, a 4.6 y cant i 26.1% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* – C wedi gostwng 13.2 y cant, o 71.4% i 58.2%.

Mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r hyn a gafwyd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, sef 7.5 y cant i 64.6%, a 6.9 y cant i 68% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* – G wedi gostwng 2.6 y cant, o 98.4% i 95.8%.

Ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae'r canlyniadau wedi gostwng 2.5 y cant i 95.1%, a 0.8 y cant i 97.4% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili uwchben y lefel ranbarthol ond islaw'r lefel genedlaethol.

TGAU Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol

Yn seiliedig ar Duedd dros Dair Blynedd 2015 – 2018

Mae canran yr ymgeiswyr ym mwrdeistref Caerffili wedi gostwng 25.3 y cant, o 32.7% i 7.4%, sef gostyngiad o 506 o ymgeiswyr.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* ac A wedi gostwng 17.1 y cant, o 18.5% i 1.4%.

Mae'r canlyniadau wedi gostwng yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, 9.6 y cant i 4.6%, a 6 y cant i 8.1% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* – C wedi gostwng 30.4 y cant, o 60.9% i 30.5%. Mae'r canlyniadau wedi gostwng yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, 17.3 y cant i 32.8%, a 13.1 y cant i 39.2% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* – G wedi gostwng 10.6 y cant, o 91.5% i 80.9%. Mae'r canlyniadau wedi gostwng yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, 5.6 y cant i 84.7%, a 5.3 y cant i 87.8% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch

Yn seiliedig ar Duedd dros Dair Blynedd 2015 – 2018

Mae canran yr ymgeiswyr ym mwrdeistref Caerffili wedi gostwng 4.6 y cant, o 16.2% i 11.6%, sef gostyngiad o 48 o ymgeiswyr.

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* ac A wedi cynyddu 1.6 y cant, o 12.1% i 13.7%.

Ar y llaw arall, ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae'r canlyniadau wedi gostwng 0.9 y cant i 21.6%, a 0.6 y cant i 22% yn y drefn honno. Mae'r canlyniadau islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* – C wedi gostwng 8 y cant, o 72.7% i 64.7%. Mae'r canlyniadau ar lefel ranbarthol wedi aros yn sefydlog, sef 77.5%. Ar y llaw arall, ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae'r canlyniadau wedi gostwng 3.9 y cant i 77.1%. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A* - E ym mwrdeistref Caerffili yn aros yn sefydlog, sef 100%.

Mae hyn uwchlaw'r canlyniadau rhanbarthol a chenedlaethol, sef 99.6%.

Safon UG Astudiaethau Crefyddol

Yn seiliedig ar Duedd dros Dair Blynedd 2015 – 2018

Mae canran yr ymgeiswyr ym mwrdeistref Caerffili wedi cynyddu 7.4%, o 3.6% i 11%, sef cynnydd o 26 o ymgeiswyr.

Mae'r canlyniadau ar gyfer gradd A wedi cynyddu 3.8%, o 4.5% i 8.3%.

Yn rhanbarthol, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu wrth i'r canlyniadau ostwng 1.6% i 8.8%. Ar y llaw arall, yn genedlaethol, mae'r canlyniadau wedi cynyddu 1.6 y cant i 18.3%. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A – C wedi gostwng 23.9%, o 36.4% i 12.5%. Mae'r canlyniadau wedi gostwng yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, 3.1 y cant i 35.3%, a 6.2 y cant i 58% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer graddau A – E wedi gostwng 6 y cant, o 72.7% i 66.7%.

Mae'r canlyniadau wedi gwella yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynyddu 4.2% i 79.4%, ac 1.3 y cant i 91.6% yn y drefn honno. Roedd y canlyniadau ym mwrdeistref Caerffili islaw'r lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Ystyriodd CYSAG amrywiaeth o resymau dros y dirywiad o ran canlyniadau'r arholiadau ar gyfer nifer o'r graddau. Ar lefel TGAU, roedd yn amlwg bod rhai ysgolion bellach yn cofrestru dysgwyr ar gyfer y Cwrs Llawn yn hytrach na'r Cwrs Byr, a bod gostyngiad sylweddol o ran canlyniadau'r Cwrs Byr yn adlewyrchu'r sefyllfa ranbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, roedd aelodau CYSAG yn falch o weld bod cynnydd yn nifer y graddau A* sy'n cael eu hennill yn yr arholiadau Safon Uwch, a nifer y graddau A sy'n cael eu hennill yn yr arholiadau Safon UG.

Penderfynodd CYSAG ysgrifennu i ysgolion yn eu hysbysu am y dadansoddiad o'r arholiadau.

2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru yn hysbysebu ei gyrsiau drwy DPP ar-lein. Penododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ms. Paula Webber yn Gynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAG o fis Medi 2018.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu hyfforddiant penodol ar Addysg Grefyddol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy arweinwyr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAGau.

Yn ystod 2018-2019, cynigiwyd y Dysgu Proffesiynol canlynol a oedd yn berthnasol i Addysg Grefyddol:

Roedd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi penodi dau arweinydd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod 2018-2019. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Penaethiaid Adrannau Addysg Grefyddol uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd. Roedd pwyslais cyfarfodydd y rhwydwaith ar wella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, cafodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd a diweddariadau ar waith CYSAGau, CCYSAGauC a chyrrff perthnasol eraill hefyd. Roedd pwyslais hefyd ar gymedroli gwaith marcio, rhannu arferion da a chydweithredu i ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Deunyddiau Addysgu

Mae CYSAG wedi rhoi gwybod i ysgolion am amrywiaeth eang o ddeunyddiau addysgu, fel a ganlyn:

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2019

Anfonodd CYSAG lythyr i bob ysgol a hysbysodd ysgolion am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2019, am y ffaith bod Diwrnod Cofio'r Holocaust yn cael ei gynnal ar 27 Ionawr bob blwyddyn, a'i fod yn amser i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocaust, o dan erledigaeth y Natsiaid ac yn yr achosion o hil-laddiad wedyn yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Cafodd ysgolion eu hatgoffa bod Diwrnod Cofio'r Holocaust yn amser i ddysgu gwersi'r gorffennol a chydabod nad yw hil-laddiad

yn digwydd ar ei ben ei hun – proses raddol yw hi a all ddechrau os nad yw gwahaniaethu, hiliaeth a chasineb yn cael eu hatal. Hysbyswyd ysgolion bwrdeistref Caerffili mai thema 2019 oedd 'Rhwygo o'u cartref', a anogodd gynulleidfaoedd i fyfyrion ar y ffaith bod colli man diogel i'w alw'n 'gartref' o dan orfodaeth yn rhan o'r trawma y mae unrhyw un sy'n cael ei erlid neu'n profi hil-laddiad yn ei wynebu.

Hysbysodd CYSAG ysgolion bod rhagor o wybodaeth am y thema ac adnoddau addysgol am ddim ar yr Holocost ar gael ar ei wefan www.hmd.org.uk, gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleuni gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.

Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer AG

Cydweithiodd ymarferwyr a oedd yn rhan o gyfarfodydd yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu i lunio a rhannu adnoddau ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol.

Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol

Mae Cynghorydd CYSAG yn parhau i gynghori ysgolion i ddefnyddio cyhoeddiad CCYSAGauC, sef Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol. Rhoddwyd copi ohono i bob ysgol yng Nghymru yn ystod 2018-2019. Mae'r ddogfen ar gael yn ddwyieithog ac fel copi caled. Mae'r ddogfen yn ddarostyngedig i hawlfraint ac ar werth, felly nid oes copi PDF ar gael i'w lawrlwytho na'i ddosbarthu.

Bwletin Newyddion Addysg Grefyddol CYSAG: lluniwyd Bwletin Newyddion Addysg Grefyddol CYSAG i'w ddosbarthu i bob ysgol yn ystod Tymor yr Haf. Roedd y Bwletin yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Cwricwlwm i Gymru 2022: y Diweddara
- Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau
- Fframwaith newydd ar gyfer Addysg Grefyddol
- Ysgolion Rhwydwaith Dysgu – Rhwydwaith Dysgu
- Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU
- CCYSAGauC – y Diweddara
- Adroddiad Thematig Estyn ar Addysg Grefyddol
- *RE: ONLINE Email a believer*
- Prosiect CA3 Erasmus+ ar Herio Eithafiaeth y mae adran Astudiaethau Crefyddol Ysgol Cil-y-Coed yn ymgymryd ag ef.
- Newyddion Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru: Mannau gweddïo a myfyrio
- Ymweliad CYSAG Casnewydd ag Ymddiriedolaeth Onyx Link: Cynhadledd Rhyng-ffydd Cymru
- Gwahoddiad gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru: Ffydd ac Aberth
- CBAC Astudiaethau Crefyddol – y Diweddara
- Cynhadledd yr Haf 2019 AREIAC
- Cynhadledd 2019 EFTRE

Ysgoloriaethau Farmington

Darparodd CYSAG wybodaeth i ysgolion am Ysgoloriaethau Farmington, sydd am ddim i Athrawon Addysg Grefyddol yn y DU. Maent yn gallu astudio unrhyw agwedd ar Addysg Grefyddol a ddymunant ond ffefrir ymgeiswyr sy'n gallu dangos bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am gost hyfforddiant, bwyd a llety lle y bo'n briodol, cludiant lleol hanfodol a, thrwy negodi â'r ysgol, gyflog athro cyflenwi hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa

gyflog. Gall Ysgoloriaethau yn yr ysgol/gartref fod ar ffurf diwrnodau astudio, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros flwyddyn neu ar gyfer cyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod. Gellir dilyn Ysgoloriaethau yn y brifysgol fel bloc hyd at wyth wythnos neu ar ffurf diwrnodau astudio hyd at 30 diwrnod. Gall ysgolion gael mwy o wybodaeth drwy fynd i www.farmington.ac.uk neu e-bostio: farmington@hmc.ox.ac.uk

Mae rhestr o **adnoddau am ddim** ar gael i ysgolion ar gais. Mae hyn yn cynnwys gwefannau defnyddiol awgrymedig a gwybodaeth am **ymweliadau ac ymwelwyr**.

ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Yn ystod y cyfarfod yn Nhymor yr Hydref, craffodd yr awdurdod lleol a'i CYSAG ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Mawrth 2019. Arolygwyd 19 o ysgolion ym mwrdeistref Caerffili, a oedd yn cynnwys dwy ysgol fabanod, 13 o ysgolion cynradd, un ysgol iau a thair ysgol uwchradd. Os bydd unrhyw broblemau o ran addoli ar y cyd, megis methu â bodloni gofynion statudol, yna bydd yr ALI yn cymryd camau dilynol drwy ofyn am eu cynlluniau gweithredu. Gwnaeth Estyn argymhelliad ynghylch addoli ar y cyd mewn un adroddiad addoli. Gwelwyd nad oedd rhai plant mewn dwy ysgol yn cael eu hawl i addoli ar y cyd. Ni wnaed unrhyw argymhellion yn yr ysgolion hynny. Mae CYSAG wedi ysgrifennu i'r ysgolion er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad ynghylch addoli ar y cyd.

Mae'r holl ysgolion eraill a arolygwyd yn bodloni'r gofynion statudol mewn cysylltiad ag addoli ar y cyd. Cyflwynwyd crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiadau hyn i'r aelodau.

Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd sylwadau cadarnhaol yn nodi bod ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae sylwadau ynghylch datblygiad ysbrydol yn amlwg mewn wyth o'r 13 o adroddiadau arolygu. Hysbyswyd CYSAG bod PYCAG a CCYSAGauC wedi bod mewn cysylltiad ag Estyn ac, yn y dyfodol, dylai pob adroddiad arolygu gyfeirio at ddatblygu ysbrydol.

Nodweddion da

Mae saith adroddiad arolygu yn cyfeirio at ansawdd addoli ar y cyd a thynnir sylw at nodweddion da. O ran gweithredoedd addoli ar y cyd:

- maent o ansawdd da
- maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrar ar werthoedd megis dewrder, cyfeillgarwch a charedigrwydd, gan hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol a moesol yn effeithiol
- maent dan arweiniad disgyblion
- maent yn helpu disgyblion i fyfyrar ar sut i fod yn garedig ac yn ystyriol, a datblygu ymwybyddiaeth addas o'r problemau sy'n gysylltiedig â bwlio
- maent yn gallu meithrin eu hyder a'u gwydnwch
- maent yn hybu dealltwriaeth disgyblion o werthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a chydweithrediad yn effeithiol
- maent yn hybu ac yn cyfrannu'n gryf at ddatblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol
- maent yn cefnogi strategaethau gwrth-fwllo a phwysigrwydd cyfeillgarwch yn dda iawn
- maent yn galluogi disgyblion i gyfrannu'n weithredol, yn gwrando'n ofalus ar y negeseuon ac yn gweithredu arnynt
- maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrar ar sut y dylent drin pobl eraill ac ystyried pobl eraill sy'n llai ffodus na nhw
- maent yn sicrhau y gall disgyblion hŷn fyfyrar ar gredoau crefyddol a sut y dylid trin pobl
- maent yn hybu dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn trin ei gilydd â gofal a pharch
- maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg.

Penderfynodd CYSAG barhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro'r broses o fodloni gofynion statudol ac i ddefnyddio pa sylwadau bynnag sy'n gymwys.

Yn ystod ei gyfarfod yn Nhymor yr Hydref, penderfynodd CYSAG ystyried adroddiadau arolygu bob tymor ym mhob cyfarfod o CYSAG er mwyn gallu cefnogi ysgolion mewn ffordd fwy rhagweithiol a chymryd camau amserol ynghylch unrhyw ysgolion nad ydynt yn bodloni gofynion statudol.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion am benderfyniadau o ran diddymu'r gofynion i sicrhau bod gweithredoedd addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf Gristnogol eu natur.

3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir i'r aelodau arsylwi ar weithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Cafodd yr aelodau gyfle i gynnal eu cyfarfod CYSAG mewn un ysgol uwchradd eleni. Ni fuont yn bresennol mewn gweithred addoli ar y cyd yn yr ysgol.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 CCYSAGauC

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas. Yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19, cyflwynwyd adroddiadau llawn i CYSAG ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC a chynhaliwyd trafodaethau llawn. Mae CYSAG yn croesawu'r gwaith rhagweithiol a wneir gan Gymdeithas CCYSAGauC i fynd i'r afael â materion sydd â goblygiadau i Addysg Grefyddol a sicrhau bod y CYSAGau sy'n aelodau o'r Gymdeithas yn cael eu hysbysu'n llawn. Mae cynghorydd proffesiynol CYSAG, Ms. Paula Webber, yn cynrychioli CYSAG ar Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC a hi yw Ysgrifennydd CCYSAGauC. Mae CYSAG Caerffili wedi cael adborth rheolaidd gan Ms. Webber a'r rhai sy'n cynrychioli CYSAG yng nghyfarfodydd CCYSAGauC.

4.2 ADDYSGU AM YR HOLOCOST

Hysbysodd CYSAG ysgolion am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2019, am y ffaith bod Diwrnod Cofio'r Holocaust yn cael ei gynnal ar 27 Ionawr bob blwyddyn, a'i fod yn amser i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocaust, o dan erledigaeth y Natsïaid ac yn yr hil-laddiadau dilynol yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Cafodd ysgolion eu hatgoffa bod Diwrnod Cofio'r Holocaust yn amser i ddysgu gwersi'r gorffennol a chydabod nad yw hil-laddiad yn digwydd ar ei ben ei hun – proses raddol yw hi a all ddechrau os nad yw gwahaniaethu, hiliaeth a chasineb yn cael eu hatal. Hysbyswyd ysgolion bwrdeistref Caerffili mai thema 2019 oedd 'Rhwygo o'u cartref', a anogodd gynulleidfaoedd i fyfyrwyr ar y ffaith bod colli man diogel i'w alw'n 'gartref' o dan orfodaeth yn rhan o'r trawma y mae unrhyw un sy'n cael ei erlid neu'n profi hil-laddiad yn ei wynebu.

Penderfynodd CYSAG hysbysu ysgolion bod yr adnoddau hyn ar gael a'u hannog i gymryd rhan yn Niwrnod Cofio'r Holocaust mewn rhyw ffordd. Hysbysodd CYSAG ysgolion bod rhagor o wybodaeth am y thema ac adnoddau addysgol am ddim ar yr Holocaust ar gael ar ei wefan www.hmd.org.uk, gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thaflenni gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.

Rhoddyd gwybod i CYSAG Caerffili am rai o'r digwyddiadau coffaol a gynhaliwyd yn y fwrdeistref sirol i nodi'r Diwrnod Cofio Rhyngwladol hwn.

4.3 ADOLYGIAD LLYWODRAETH CYMRU O'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

Mae CYSAG wedi cael diweddariadau bob tymor ar y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt o ran Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Cyfranogodd CYSAG mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru yn ystod Tymor yr Hydref. Aeth cynrychiolwyr i gyflwyniad yng Nghaerdydd dan arweiniad Manon Jones o Lywodraeth Cymru, Paula Webber a Libby Jones, a gynrychiolodd CCYSAGauC. Cynigiwyd cyfle i'r cynrychiolwyr drafod y dulliau allweddol o ymdrin â'r cwricwlwm a argymhellwyd gan grŵp y Dyniaethau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gwricwlwm drafft i Gymru 2022 ar 30 Ebrill. Cyfranogodd aelodau CYSAG Caerffili yn yr ymgynghoriad ar y Cwricwlwm mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Lleol eraill o fewn consortia De-ddwyrain Cymru. Roedd y canllaw i'r Cwricwlwm yn cynnwys gwybodaeth am strwythur ac elfennau'r Cwricwlwm i Gymru, y dull gweithredu o ran cynnydd, a'r ffaith bod yn rhaid i'r

cwricwlwm gynnwys pob dysgwr. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn rhan o genhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd. Wrth wraidd y Cwricwlwm y mae'r pedwar diben sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc erbyn 16 oed.

Nododd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn, Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, y cynigion deddfwriaethol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Darparodd CYSAG Caerffili adborth yn dilyn y drafodaeth yn ystod cyfarfod CYSAG yn Nhymor y Gwanwyn, a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019.

Mae fframwaith ategol newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn darparu rhagor o fanylion am y gydberthynas rhwng addysg grefyddol, y maes llafur cytûn, a'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae grŵp o ymarferwyr addysg grefyddol, arloeswyr y cwricwlwm, academyddion, a chynrychiolwyr o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wrthi'n datblygu'r fframwaith hwn.

Mae cynghorydd AG CYSAG Caerffili, Paula Webber, wedi gweithredu fel Is-gadeirydd Rhanbarthol gweithgor Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ei rôl fel Cynghorydd Dysgu Proffesiynol yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Rhoddwyd gwybod i aelodau CYSAG am y cynnydd o ran Addysg Grefyddol yn y Dyniaethau a'r broses o ddatblygu'r Fframwaith Addysg Grefyddol yn ystod cyfarfodydd tymhorol CYSAG. Mae Paula Webber a Libby Jones (Cynghorydd Addysg Grefyddol Wrecsam) yn parhau i arwain y broses o ddatblygu'r fframwaith ategol ar gyfer Addysg Grefyddol.

Cydweithiodd CYSAG â CYSAGau eraill ledled rhanbarth De-ddwyrain Cymru i roi adborth i Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm drafft.

4.4 DIWEDDARIADAU ESTYN

Yn ystod Tymor yr Hydref, cafodd CYSAG Adroddiad Thematig Estyn – Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Mehefin 2018) ac ystyriodd yr argymhellion a wnaed ynddo.

Mae'r adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia crefyddol, ac aelodau Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau). Bydd canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i roi ar waith. Bydd CYSAG yn ceisio rhoi'r argymhellion sy'n berthnasol i CYSAG ar waith a chynghori'r Awdurdod Lleol a'i ysgolion ar yr argymhellion. Hysbysodd Bwletin Newyddion CYSAG ysgolion am yr argymhellion hefyd.

4.5 ADRODDIAD TERFYNOL GAN Y COMISIWN AR ADDYSG GREFYDDOL YN LLOEGR

Daeth Crynodeb Gweithredol yr Adroddiad Terfynol gan y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr i law CYSAG, a'i hystyriodd a'i berthnasedd i Gymru. Hysbyswyd yr aelodau am Adroddiad Terfynol y Comisiwn ar Addysg Grefyddol, sef *Religion and Worldviews: the way forward*. Roedd cynllun cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'n nodi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol sy'n cynnwys 11 o argymhellion ac yn galw ar y Llywodraeth yn Lloegr i'w ystyried a'i fabwysiadu.

Mae'r adroddiad yn deillio o ddwy flynedd o waith gan Gomisiynwyr, a wrandawodd ar dystiolaeth gan amrywiaeth eang o bartion cysylltiedig, gan gynnwys athrawon, darlithwyr, cynghorwyr, rhieni a chymunedau ffydd a chred. Cafodd y Comisiwn fwy na thair mil o gyflwyniadau, y mae pob un ohonynt wedi cael eu hystyried yn ofalus. Hysbyswyd CYSAG bod CCYSAGauC wedi bod yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad a'i fod wedi anfon copïau ohono i Lywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams, i'w ystyried gan y gallai rhai o'r argymhellion fod yn gymwys i Gymru hefyd. Hysbyswyd CYSAG bod Rudi Lockhart, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr, wedi rhoi cyflwyniad ar adroddiad y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yng nghyfarfod CCYSAGauC ar 20 Tachwedd 2018.

Mae Cynghorydd Addysg Grefyddol Caerffili yn cynrychioli Cymdeithas CYSAGau Cymru ar Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr ac yn mynychu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn lle gall gynrychioli CYSAGau ledled Cymru a chael gwybod am y datblygiadau cenedlaethol diweddaraf ledled Cymru a Lloegr. Mae Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr wedi bod yn gweithio'n agos gyda CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm.

4.6 HOLIADUR CCYSAGAU C YNGHYLCH TYNNU DISGYBLION YN ÔL O ADDYSG GREFYDDOL

Darparwyd diweddariad llafar i CYSAG ar holiadur CCYSAGauC ynghylch tynnu disgyblion yn ôl o addysg grefyddol, a chafodd yr aelodau eu hatgoffa am ddogfen ganllaw CCYSAGauC, "Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol", a ddosbarthwyd i bob ysgol yn y fwrdeistref sirol. Roedd holiadur byr wedi cael ei gynnwys gyda'r ddogfen er mwyn helpu CCYSAGauC i gael ymwybyddiaeth gywir o enghreifftiau o dynnu disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol mewn ysgolion ledled Cymru. Hysbyswyd aelodau CYSAG bod Clerc CYSAG wedi mynd ar drywydd hyn sawl gwaith er mwyn sicrhau bod modd coladu'r ymatebion a'u dychwelyd i CCYSAGauC. O fis Tachwedd 2018, y gyfradd ymateb ar gyfer bwrdeistref Caerffili oedd 47%, a oedd yn unol ag arolygon eraill ac yn debyg i gyfraddau ymateb mewn awdurdodau lleol eraill. Ar y cyfan, prin oedd yr enghreifftiau o dynnu disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel y rhoddwyd gwybod amdanynt i CYSAG yn ystod 2017-2018. Ystyriodd CCYSAGauC y canlyniadau ac anfonodd ganfyddiadau'r ymateb i Lywodraeth Cymru.

4.7 HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYSAG yn cael hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd.

Fel rhan o'r broses hon, cafodd aelodau CYSAG yr hyfforddiant canlynol:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd drwy gyflwyniadau rheolaidd i aelodau CYSAG. Cyflwynodd Ms. P. Webber y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o Gwricwlwm i Gymru 2022 a'i oblygiadau i Addysg Grefyddol.
- Os oes modd, mae CYSAG yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y fwrdeistref sirol er mwyn i'r aelodau ymgyswngi ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ymwelwyd ag Ysgol Trecelyn eleni a chyflwynodd y Pennaeth Adran y wybodaeth ddiweddaraf am Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir drwy ymweliadau a chyflwyniadau i ddod yn fwy hyddysg am faterion AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion yn fawr a hoffai ddiolch i bawb dan sylw. Hoffai ddiolch yn arbennig i glerc CYSAG (Rebecca Bartlett) am ei holl waith caled yn gwneud trefniadau o'r fath eleni.

4.8 AELODAETH CYSAG

Yn ei gyfarfod yn ystod Tymor yr Haf 2018, hysbyswyd CYSAG am swyddi gwag a newidiadau i aelodaeth y pwyllgor. Trafododd CYSAG y cais gan Ddyneiddwyr y DU i ymaelodi â Phwyllgor A a'r llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ynghylch hawl y Dyneiddwyr i gael statws llawn ar Bwyllgor A. Ar ôl trafod y mater, pleidleisiodd y tri grŵp arno a derbyniwyd y cynnig i argymhell i'r Cyngor y dylid dyrannu lle ar CYSAG i un o gynrychiolwyr y Dyneiddwyr. Argymhellodd CYSAG i'r Cyngor a'r ALI y dylid ychwanegu dau aelod at Bwyllgor A (grwpiau ffydd) CYSAG (un lle ar gyfer grŵp ffydd crefydd anghristnogol ac un lle ar gyfer grŵp nad yw'n arddel credoau crefyddol). Hefyd, y dylid ychwanegu un aelod at Bwyllgor B (undebau addysgu) CYSAG a'i ddyrannu i Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau. Cadarnhaodd y Cyngor a'r Awdurdod Lleol y lleoedd ychwanegol ar CYSAG ym mis Hydref 2018.

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa ym mis Awst 2019 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Gwnaed pob ymdrech i geisio sicrhau cynrychiolaeth o blith sefydliadau crefyddol nad ydynt yn rhai Cristnogol ond mae CYSAG wedi ei chael yn anodd dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath. O ran Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Eglwysi ynghyd yng Nghymru (Cytûn), a fu'n gymwynasgar wrth gynnig enwebiadau, a llenwyd swydd wag yr Eglwys Rydd ym mis Mehefin 2019. Yn ystod 2018-2019, sefydlodd y Cyngorydd Addysg Grefyddol gysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Onyx Link a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru er mwyn ceisio cynrychiolaeth. Gwahoddodd yr Awdurdod Lleol Ddyneiddwyr Cymru i gynnig enwebiad ar gyfer CYSAG Caerffili, a llenwyd y swydd wag ym mis Awst 2019. O ran Pwyllgor B, mae Clerc CYSAG wedi cysylltu â Chymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau er mwyn rhoi gwybod am y ddwy swydd wag ar Bwyllgor B a'r ddau ddatganiad o ddiddordeb sydd eisoes ar ffeil. Mae CYSAG yn aros i'r undeb gymeradwyo'r ddau unigolyn sydd ar ffeil cyn y gellir bwrw ymlaen â'r broses. Cyflwynodd Ysgrifennydd Cangen Undeb Cenedlaethol yr Athrawon y swydd wag i aelodau o adran Caerffili ym mis Mai 2018, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar yr adeg honno. Mae Clerc CYSAG wedi cysylltu â Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau sawl gwaith ynghylch y swydd wag ar Bwyllgor B, ond nid yw wedi cael ateb eto.

Yn ystod 2018-2019, penderfynodd CYSAG Caerffili gyfethol dau gynrychiolydd o blith pobl ifanc i CYSAG er mwyn rhoi llais i ddysgwyr. Trafododd CYSAG y materion logistaidd sy'n gysylltiedig â rhoi cyfle i bobl ifanc fynychu cyfarfodydd CYSAG. Gwahoddwyd yr Uwch-swyddog Cyfranogiad ar gyfer Fforwm Ieuenctid Caerffili i gyfarfod CYSAG yn Nhymor yr Haf, er mwyn rhoi trosolwg o'r prosesau diogelu a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Ieuenctid wrth hwyluso ymweliadau a gweithgareddau i'w aelodau ifanc. Cytunodd CYSAG i anfon manylion y ddwy swydd gyfetholedig wag i'r Fforwm Ieuenctid fel y gellid ceisio enwebiadau gan y Fforwm Ieuenctid. Bydd y Cadeirydd yn mynd i gyfarfod o'r Fforwm Ieuenctid yn Nhymor yr Hydref 2019 er mwyn siarad â'i aelodau am waith CYSAG.

4.9 CYNGHORYDD PROFFESIYNOL I CYSAG

Yn ystod y cyfarfod yn Nhymor yr Hydref, croesawodd Cadeirydd CYSAG Ms. P. Webber, a oedd wedi cael ei phenodi'n Gynghorydd Addysg Grefyddol CYSAG yn ddiweddar drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Swydd Ms. Webber yw Cynghorydd Dysgu Proffesiynol llawn amser i CYSAGau yn rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Felly, mae bellach yn gallu cefnogi ysgolion yn y rhanbarth yn ogystal â CYSAGau.

ATODIAD 1: Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM AELODAETH CYSAG CAERFFILI 2018/19

ENWADAU CRISTNOGOL AC ENWADAU CREFYDDOL ERAILL – PWYLLGOR A

Mr Martyn Western (Archesgobaeth Gatholig)

Mrs Enfys Hawthorn (Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig)

Mrs Janet Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) (Is-gadeirydd CYSAG)

Yr uwchgaptin Paula Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth) – a gymerodd le'r Capten Di-Palma ym mis Mehefin 2019

Mr Michael Gray (Eglwys y Methodistiaid) – a gymerodd le'r Parchedig Eryl Williams ym mis Mehefin 2019

Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru) – a benodwyd ym mis Awst 2019

Swydd wag – grŵp ffydd crefydd anghristnogol – a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2018

CYMDEITHASAU ATHRAWON – PWYLLGOR B

Ysgolion cynradd

Mrs Tara Lloyd (NAHT)

Ms Meinir Jones (UCAC)

Ysgolion Uwchradd

Miss Helen Bartley (ATL)

Swydd wag – Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon

Swydd wag – Cynrychiolydd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Swydd wag – Mrs Laura Strange (Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr

Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau) a ymddiswyddodd ym mis Mawrth 2019

Swydd wag – Ail Gynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau) – a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2018

YR AWDURDOD LLEOL – PWYLLGOR C

Y Cynghorydd Mrs E.M. Aldworth

Y Cynghorydd J. Ridgewell

Y Cynghorydd Mrs G.D. Oliver

Y Cynghorydd Mrs. T. Parry – a gymerodd le'r Cynghorydd Mrs M.E. Sargent ar CYSAG ym mis Mai 2019

Y Cynghorydd J. Simmonds

Y Cynghorydd J. Taylor (Cadeirydd CYSAG)

AELODAU CYFETHOLEDIG

Dwy swydd wag – ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc ar CYSAG

SWYDDOGION

Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwellu Ysgolion CBSC)

Ms Paula Webber (Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cynghorydd AG CYSAG Caerffili)

CLERC CYSAG

Miss Rebecca Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)
E-bost: barrerm@caerphilly.gov.uk

ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU

Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018 yn Nhŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach

Prif Eitemau ar yr Agenda

- Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Caerffili (CYSAG) – 13 Mehefin 2018.
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Aelodaeth CYSAG a Chylch Gorchwyl Diwygiedig
- Adroddiad Blynnyddol CYSAG Caerffili 2017-2018
- Y Diweddaraf – Datblygu'r Cwricwlwm
- Adroddiad Thematig Estyn – Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Mehefin 2018)
- Bwletin Newyddion CYSAG
- Monitro Darpariaeth a Safonau – Adroddiadau Arolygu Ysgolion Caerffili
- Y diweddaraf ar yr Arolwg ynghylch Tynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol (diweddariad llafar.
- Diwrnod Cofio'r Holocaust 2019
- Adroddiad Terfynol gan y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr. Gohebiaeth
- Busnes CCYSAGauC gan gynnwys adborth o Gyfarfod CCYSAGauC yn Ynys Môn ar 6 Gorffennaf 2018; Cyfansoddiad Diwygiedig CCYSAGauC 2018 a chynrychiolaeth yng Nghyfarfod CCYSAGauC yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg, ar 20 Tachwedd 2018.

Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019 yn Nhŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach

Prif Eitemau ar yr Agenda

- Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) – 14 Tachwedd 2018
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Aelodaeth CYSAG
- Cyflwyniad – Beth yw Dyneiddiaeth? – Kathy Riddick (Dyneiddwyr Cymru).
- Y Diweddaraf – Datblygu'r Cwricwlwm.
- Adroddiad Thematig Estyn – Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Mehefin 2018); Monitro Addysg Grefyddol – Dadansoddiad o Asesiadau TGAU a TAG 2018
- Monitro Darpariaeth a Safonau – Adroddiadau Arolygu Ysgolion Caerffili (Hydref 2018)
- Effeithiolrwydd CYSAG
- Bwletin Newyddion CYSAG
- Busnes CCYSAGauC gan gynnwys adborth o gyfarfod CCYSAGauC yn Llanilltud Fawr ar 20 Tachwedd 2018 a Phleidleisio Gweithredol 2019 - Enwebiadau i Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC.

Dydd Llun, 20 Mai 2019 yn ysgol Trecelyn, Stryd y Bont, Trecelyn


Prif Eitemau ar yr Agenda

- Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Caerffili (CYSAG) – 6 Mawrth 2019
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Aelodaeth CYSAG
- Cyflwyniad: Addysg Grefyddol yn Ysgol Trecelyn
- Bwletin Newyddion CYSAG

- Y Diweddaraf ar Ddatblygu'r Cwricwlwm ac Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm drafft i Gymru
- Monitro Darpariaeth a Safonau – Adroddiadau Arolygu Ysgolion Caerffili
- Busnes CCYSAGauC gan gynnwys Adborth o Gyfarfod CCYSAGauC yng Nghaerdydd ar 26 Mawrth 2019; Ethol Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC a chynrychiolaeth yng Nghyfarfod CCYSAGauC ym Mae Colwyn, Conwy, ar 28 Mehefin 2019


ATODIAD 3: DADANSODDIAD O GANLYNIADAU ARHOLIADAU 2018
TGAU Cwrs Llawn Astudiaethau Crefyddol 2018

Caerffili – TGAU Cwrs Llawn CA4				
	2015	2016	2017	2018
Maint y Garfan	1977	2048	1966	1898
Nifer yr Ymgeiswyr	679	604	808	811
Canran yr Ymgeiswyr	34.3%	29.5%	41.1%	42.7%
A* - A	29.3%	27.6%	24.1%	16.2%
A* - C	71.4%	71.0%	66.8%	58.2%
A* - G	98.4%	97.7%	97.0%	95.8%




TGAU Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol 2018

Caerffili – TGAU Cwrs Byr CA4				
	2015	2016	2017	2018
Maint y Garfan	1977	2048	1966	1898
Nifer yr Ymgeiswyr	647	607	365	141
Canran yr Ymgeiswyr	32.7%	29.6%	18.6%	7.4%
A* - A	18.5%	13.5%	7.4%	1.4%
A* - C	60.9%	44.8%	27.4%	30.5%
A* - G	91.5%	90.8%	86.0%	80.9%




TAG Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol 2018

Caerffili – Safon Uwch CA5				
	2015	2016	2017	2018
Maint y Garfan	613	593	448	438
Nifer yr Ymgeiswyr	99	84	60	51
Canran yr Ymgeiswyr	16.2%	14.2%	13.4%	11.6%
A* - A	12.1%	13.1%	10.0%	13.7%
A* - C	72.7%	69.0%	68.3%	64.7%
A* - E	100.0%	98.8%	100.0%	100.0%



TAG Safon UG Astudiaethau Crefyddol 2018

Caerffili – Safon UG CA5				
	2015	2016	2017	2018
Maint y Garfan	613	593	448	438
Nifer yr Ymgeiswyr	22	30	14	48
Canran yr Ymgeiswyr	3.6%	5.1%	3.1%	11.0%
A	4.5%	0.0%	0.0%	8.3%
A - C	36.4%	40.0%	28.6%	12.5%
A - E	72.7%	66.7%	78.6%	66.7%



ATODIAD 4: DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Caiff copïau eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan Cymdeithas CYSAGau Cymru er mwyn i bartïon sydd â diddordeb ei lawrlwytho.

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cadeirydd Craffu Addysg

Cyfarwyddwr Rhanbarthol SEWC

Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob aelod o CYSAG

Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu pob Coleg Trydyddol yn y Fwrdeistref Sirol

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

ESTYN